



RCS



Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

**Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg: Gwersi
a ddysgwyd gan Gronfa Cynhwysiant
Gweithredol Cyngor Gweithredu
Gwirfoddol Cymru (CGGC)**

-
Aled Eirug

**Medi 2022
(Gwaith Crynhoi wedi'i Gynnal Rhwng 2017 - 2022)**

Cynnwys

Tudalen

Adran 1: Cyflwyniad	3
Adran 2: Dull	3
Adran 3: Canfyddiadau	4
Adran 4: Yr Her	6
Adran 5: Rhai Agweddau ynghlwm â Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg	7
Atodiad 1: Llyfryddiaeth Fer:	10

Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg: Gwersi a ddysgwyd gan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC

Adran 1: Cyflwyniad

1.1. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r dysgu yn dilyn gwerthusiad o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) sydd wedi'i gweithredu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ynghylch yr hynny sy'n effeithiol ynghlwm â meithrin y defnydd o'r Gymraeg mewn rhaglenni sy'n cefnogi pobl mewn amgylchiadau heriol.

1.2. Bu i CCG gynnig cymorth i bobl 'anodd eu cyrraedd' yng Nghymru i ymuno neu ail-ymuno â'r farchnad lafur: pobl gafodd eu disgrifio'n addas fel 'y rheiny nas clywir yn aml' gan aelod Panel Anweithgarwch Economaidd CGGC.

1.3. Fe lansiwyd y rhaglen yn 2015 ac fe'i hariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop gyda'r amcan o helpu unigolion sy'n cymryd rhan i drechu tlodi a chyflawni deilliannau bywyd gwell. Pan lansiwyd y rhaglen yn 2015, y cyd-destun oedd angen parhaus i weithredu yng Nghymru er mwyn helpu'r grwpiau hynny sydd yn anoddaf eu cyrraedd i ymuno â'r farchnad llafur. Roedd cyfanswm y grwpiau hyn yn fwy niferus ar gyfartaledd na'r cyfanswm ar gyfartaledd yn y DU.

1.3. Bu i'r CCG weithredu fel elfen hyblyg a ledled Cymru ynghlwm â pholisïau a rhaglenni cyflogadwyedd Cymru. Bu'n meithrin arloesedd, dulliau ymatebol yn lleol a chynnig cymorth wedi'i deilwra i unigolion a grwpiau sy'n wynebu heriau. Bu'n cyfuno amcanion cyflogadwyedd, lles a llesiant drwy fynd i'r afael â sgiliau meddal a bywyd yr unigolion sy'n cymryd rhan ynghyd â chaffael sgiliau penodol sy'n gysylltiedig â gwaith er mwyn gosod pobl ar lwybr tuag at waith gan gydnabod y gallai ffordd o fyw gwell ac iachach fod yn benderfynydd allweddol i ddod o hyd i waith.

1.4. Roedd y model damcaniaeth newid a rhesymeg sy'n sail i'r CCG yn seiliedig ar fudiadau ariannu oedd â'r gallu i gydweithio gyda grwpiau ac unigolion amrywiol sy'n wynebu amgylchiadau heriol i'w helpu i ddilyn llwybr tuag at, ac mewn rhai achosion, i ddod o hyd i waith. Fel rhan o'r gwaith, bu'r mudiadau yn cydweithio gyda chymunedau, grwpiau ac unigolion oedd yn medru'r Gymraeg. Gofyniad allweddol oedd bodloni dewis iaith y rheiny sy'n derbyn cymorth drwy'r rhaglen: yn bennaf oll os oedden nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith gyntaf (ond gan gydnabod hefyd fod amrywioldeb poblogaeth Cymru yn golygu bod rhai pobl lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw).

Adran 2: Dull

2.1. Fe gynhaliwyd y gwaith mewn dau brif gam yn ystod 2017 a 2021 gydag adolygiad ynghylch paratoi'r adroddiad gwerthuso terfynol yn 2022.

2.2. Dyma'r agweddau ynghlwm â'r fethodoleg:

- a. Arweinyddiaeth gan siaradwr Cymraeg rhugl sydd â phrofiad o gynghori a helpu Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i feithrin y defnydd o'r Gymraeg.
- b. Cyfweiliadau gyda staff CGGC gan gynnwys y rheiny sydd ynghlwm â chyflawni safonau a pholisïau Cymraeg yn ogystal â staff CCG, buddiolwyr CCG (cyrff sydd wedi'u hariannu gan CCG i gynnig cymorth) ac unigolion sy'n cymryd rhan (pobl sy'n derbyn cymorth) yn 2017. Nod hyn yn benodol oedd er mwyn deall dewisiadau iaith ar y cyd â dau arsylwad trylwyr o fuddiolwyr CCG a'r unigolion sy'n cymryd rhan yn cydweithio gyda'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- c. Adolygiad 'poblogaeth' CCG cyfan (cronnol) o'r data CGGC sydd ar gael ynghylch dewisiadau iaith yr unigolion sy'n cymryd rhan: pan roedden nhw'n dechrau derbyn cymorth CCG, roedd cyfle i unigolion ddatgan eu hiaith gyntaf ddewisol trwy gyrff buddiolwyr oedd yn cynnig cymorth. Mae'r data hefyd yn ymwneud â gwybodaeth ar alluoedd iaith Gymraeg ehangach yr unigolion.
- d. Adolygiad o'r galluogwyr a'r rhwystrau ynghylch y defnydd o'r Gymraeg yn enwedig mewn cyd-destunau gan gynnwys llenyddiaeth berthnasol, ail-ymweld â phobl oedd wedi'u cyfweld yn 2017 a chyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

2.3. Bu'r gwaith yn canolbwyntio ar ardaloedd a phrosiectau lle mae'r Gymraeg yn gyffredin ac yn nodwedd o fywyd cymunedol gan gynnwys Ynys Môn, Gwynedd, a Cheredigion. At hyn, bu cyfweiliadau hefyd gyda buddiolwyr ac unigolion lle nad oedd eu hiaith gyntaf yn Gymraeg na Saesneg (Arabeg ac Wrddw). Yn fwy eang, bu i waith maes ynghlwm â'r gwerthusiad gofnodi lle'r oedd y Gymraeg yn bwysig i'r unigolion oedd yn cymryd rhan.

Adran 3: Canfyddiadau

3.1. Gyda'i gilydd, dyma oedd canfyddiadau'r gwerthusiad:


- a. Bu i gyfran bach o unigolion ddewis defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn ffurfiol wrth ymwneud gyda CCG: oddeutu 2% ledled oes y rhaglen.
- b. Bu i'r gwerthusiad ymgysylltu'n uniongyrchol gyda 100+ o fuddiolwyr CCG a dros 200 o unigolion oedd yn rhan ohono. Y tu hwnt i ymgysylltu penodol â buddiolwyr a oedd yn canolbwyntio ar y Gymraeg, nid oedd buddiolwyr ac unigolion fel arfer yn codi unrhyw faterion o ran dewis iaith. Yn ystod Gwanwyn 2021, roedd chwech buddiolwr neu ymgeiswyr CCG allan o 100+ yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r rheiny yn bennaf yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Yn ogystal, bu i ymgysylltiad CGGC drwy gyfrwng y Gymraeg gyda buddiolwyr estyn i 6 ychwanegol a oedd yn defnyddio ac yn cyfathrebu drwy'r Gymraeg i ryw raddau.
- c. Yn ymarferol, bu i dulliau buddiolwyr CCG oedd yn cydweithio gydag unigolion Cymraeg eu hiaith amrywio. Bu i rai weithio'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg tra bu eraill ond yn gweithio'n anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- d. Roedd y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn CCG yn llawer mwy cyffredin na'r defnydd ffurfiol ohoni mewn dogfennau a phrosesau swyddogol. Roedd ymdeimlad cyffredinol bod buddiolwyr ac unigolion yn nerfus ynghylch defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ysgrifenedig, yn enwedig o ran arddull penodol ffurflenni swyddogol. Gallai amharodrzydd i gwblhau ffurflenni swyddogol drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn rhannol yn sgil tyb ynghylch natur anodd yr iaith a ddefnyddir yn y ffurflen, ond roedd hefyd yn sgil amharodrzydd mudiadau, hyd yn oed os oedden nhw'n siaradwyr Cymraeg rhugl, i gwblhau'r ffurflenni yn y Gymraeg. Roedd nifer fawr o unigolion oedd yn rhan o'r rhaglen yn wyliadwrus ynghylch unrhyw ymgysylltiad gyda swyddogion.
- e. Mae hyn yn adlewyrchu profiad ehangach o'r defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â her gyffredin ledled y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru: mae siarad Cymraeg yn nodweddiadol – ond nid yn ddaearyddol yn unffurf – yn fwy cyffredin mewn cyd-destun anffurfiol yn hytrach na chyd-destun ffurfiol. Mae hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau o waith megis Adroddiad Cyngor Ar Bopeth Cymru '*Deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg*' (2015).
- f. Soniodd rhai o'r buddiolwyr naill ai nad oedd ganddyn nhw ddigon o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, neu ymysg grwpiau o unigolion cymysg eu hiaith, roedden nhw fel arfer yn troi i'r Saesneg. Roedd hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg felly ac fe gafodd ei dderbyn fel y norm. Dywedodd un tiwtor bod yr unigolion yn ymddiried mwy ynddi gan ei bod hi'n siarad Cymraeg, ond hi oedd yr unig siaradwr Cymraeg oedd ynghlwm â'r prosiect.
- g. Roedd buddiolwyr CCG oedd yn gweithio mewn ardaloedd lle'r oedd y Gymraeg yn gyffredin o'r farn bod siarad Cymraeg yn bwysig o ystyried ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin gan y mudiad a'i bod yn iaith gymunedol. Gallai hefyd fod yn anghenraid i fanteisio ar rai cyfleoedd gwaith. Nid dewis yn unig ydy defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg: dengys ymchwil ehangach (e.e., Adroddiad Cyngor Ar Bopeth) bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg, yn teimlo'n fwy hyderus yn rhannu eu hanghenion yn y Gymraeg ac yn meddwl ac yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn bwysig ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion bregus.

3.2. Mae Siart 1 isod yn cymharu'r % o unigolion sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ar gyfer y CCG o'i gymharu â'u gallu datganedig i ddefnyddio'r Gymraeg.

Chart 1: Active Inclusion Fund: Welsh Language Analysis

(Source 2022 WCVA Data From 23096 Records / 23379 Records for AIF Preference Data)



3.3. Bu dau o'r buddiolwyr cafodd eu cyfweld yn ymdrin gydag unigolion oedd yn ceisio dod o hyd i waith lle'r oedd Arabeg ac Wrddw yn iaith gyntaf iddyn nhw. Nod CCG oedd gwella cyfleoedd i unigolion ar gyfer dod o hyd i waith. Bu i'r ddau fuddiolwr ynghlwm recriwtio unigolion i fod yn rhan o'r CCG o grŵp o fyfyrwyr oedd wrthi'n cwblhau cwrs 'Saesneg fel Iaith Dramor' i gynnig modd iddyn nhw hybu eu hyder a datblygu sgiliau.

3.4. Er bu i rai buddiolwyr leisio pryderon ar gychwyn y rhaglen ynghylch gallu staff CGGC yn y Gymraeg, bu i hyn ostwng wrth i CGGC weithio i sicrhau fod modd i unrhyw un oedd yn dymuno ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny ac roedd ffurflenni a thafleuni dwyieithog ar gael: rhywbeth a adlewyrchwyd mewn gwaith maes gwerthuso diweddarach.

3.5. Mae gan CGGC rôl ehangach yn meithrin y Gymraeg gan gynnwys memorandwm dealltwriaeth gyda Chomisynydd y Gymraeg i gydweithio er mwyn gwella'u darpariaeth o'r Gymraeg. Yn ogystal â chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg fel mudiadau, mae'r CGGC yn annog y defnydd o'r Gymraeg wrth wirfoddoli ac i fudiadau gwirfoddoli ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli ymysg siaradwyr Cymraeg gan gynnwys datblygu gallu'r sector. Ymysg yr enghreifftiau mae cyflwyno'r 'Cynnig Cymraeg' ac ymgysylltu gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol i'w cefnogi i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys cyhoeddi gwefannau dwyieithog a chydweithio gyda'r Mentrau Iaith lleol.

Adran 4: Yr Her

4.1. Ar y cyfan, mae profiad y CCG yn adlewyrchu patrwm ehangach ac yn arwain at her gyffredinol i'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Gallai cynnig gwasanaethau Cymraeg ffurfiol fod yn gymhleth ac yn heriol o bosibl. Felly gall y galw sy'n ymddangos yn gymedrol a'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau Cymraeg ffurfiol achosi i fudiadau gwestiynu i ba raddau y dylen nhw fuddsoddi adnoddau i'w datblygu ymhellach. Fodd

bynag, er mwyn meithrin defnydd ehangach o'r Gymraeg, mae angen cyflawni camau gweithredu rhagweithiol i osgoi defnyddio'r Saesneg fel iaith ddiodyn.


4.2. Nid yw'r her wedi'i chyfyngu i ardaloedd a chymunedau lle mae'r Gymraeg yn gyffredin yn unig. Mae'n debyg bod canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn lleiafrifol hefyd: er enghraifft, yn ardal Caerdydd mae hyn yn 11% o'r boblogaeth (37,000 o bobl). Mae canran y siaradwyr Cymraeg ifanc yn cynyddu, a hynny yn rhannol yn sgil y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, fel bod 24.5% o'r ystod oedran 9-15 yn siaradwyr Cymraeg, o gymharu ag oddeutu 19% o'r boblogaeth gyffredinol (dadansoddiad Ystadegau Cymru o Gyfrifiad 2011 ynghylch y Gymraeg). Mae Siart 2 isod yn ategu'r dosbarthiad oedran hwn mewn perthynas â'r unigolion hynny sy'n rhan o'r CCG a wnaeth ddewis defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

4.3. Mae ymchwil ehangach, gan gynnwys *arolwg defnydd iaith 2013-15* Llywodraeth Cymru, yn cadarnhau canfyddiadau Cyngor Ar Bopeth ac yn adnabod cymysgedd o resymau pam fod siaradwyr Cymraeg yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg presennol. Yn enwedig:

- a. Rhwystrau strwythurol o ran diffyg dewis neu allu i gyfathrebu yn y Gymraeg.
- b. Rhwystrau ymddygiad sy'n cynnwys diffyg hyder yn ansawdd y gwasanaethau Cymraeg yn sgil profiad gwael yn y gorffennol o ddefnyddio'r gwasanaethau, disgwyliadau isel tybiedig neu wirioneddol ynghylch ansawdd y gwasanaeth ac ofn o gamgymeriadau neu gamddealltwriaeth wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- c. Pryder cyffredin ymysg siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys unigolion oedd wedi'u cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad) bod y Gymraeg yn 'rhy ffurfiol' neu'n 'rhy dechnegol' - neu gallai'r ffurf gaiff ei ddefnyddio fod yn ffurfiol neu'n dechnegol o leiaf ac felly mae'n atal pobl rhag dewis Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Chart 2: Active Inclusion Fund: Expressed Welsh Language Preference Age Profile

(Source 2022 WCVA Data 553 Records)



4.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw iddi gyda tharged hirdymor ac uchelgeisiol i gyflawni'r canlynol:

- Sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050, fel sydd wedi'i grybwyll yn eu strategaeth iaith, *Cymraeg 2050* (Welsh 2050); ac
- Amcan Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2018 – 2021 o hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg.

4.5. Efallai bod modd cyflawni rhywfaint o hyn yn gynyddol, er enghraifft drwy'r system addysg, ond mae her ledled Cymru gyfan i'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r targed 2050 yn awgrymu fod angen addasiad pellgyrhaeddol a chyfunol i gyflawni newid diwylliannol yn ogystal â newid ymarferol gyda defnydd mwy cyson a mwy rhagweithiol o'r Gymraeg fel yr iaith ddiodyfyn a Saesneg fel ail ddewis wrth gefn: ar hyn o bryd mae'r Saesneg yn fwy tebygol o fod yr iaith ddiodyfyn.

4.6. Hefyd, mae achos dros fabwysiadu 'dull seiliedig ar hawliau' ynghlwm â darparu gwasanaethau Cymraeg i bwysleisio pwysigrwydd bodloni dewisiadau iaith.

Adran 5: Rhai Agweddau ynghlwm â Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg

5.1. Mae'r gwerthusiad CCG a gwaith ehangach yng Nghymru'n awgrymu nifer o agweddau sy'n lliniaru o blaid meithrin y defnydd o'r Gymraeg wrth gynllunio a chyflawni rhaglenni. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- a. **Diwylliant cyfundrefnol:** mae mudiadau sy'n rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg mewn sefyllfa well i gefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyddestunau anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys mewn dogfennau. Mae'n ymddangos hefyd bod meddu ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn annog mwy o unigolion a mudiadau i gynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.
- b. Dylai'r **prosesau cynllunio a chynllun y rhaglen** asesu lle mae angen sgiliau'r Gymraeg a sicrhau gallu a chapasiti cyfundrefnol. Gallai mudiadau Cymraeg eu hiaith gynorthwyo gyda chynllunio a chynllun y rhaglen e.e., Mentrau Iaith Cymru. Mae enghreifftiau o hyn yn y gorffennol gan gynnwys prosiect ar y cyd yng Nghaerffili, lle bu i'r Fenter leol helpu'r awdurdod lleol i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg ynghlwm â gwasanaethau gofal i blant.
- c. **Defnydd o iaith syml ac eglur mewn prosesau, dogfennau a ffurflenni:** er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg, mae'n bosibl y bydd angen, er enghraifft, adolygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau, ar wefannau ac mewn cyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg ac ati, er mwyn sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn syml ac yn eglur ac felly ddim yn 'rhy dechnegol'. Bu i adroddiad gwerthuso CCG dros dro awgrymu bod 'CGGC yn ystyried y posibilrwydd o symleiddio ffurflenni CCG yn y Gymraeg' er mwyn helpu meithrin y defnydd o'r Gymraeg. Roedd cyfyngiadau ynghlwm â'r angen i reoli cymhlethdodau gofynion ariannu'r UE, ond mae dyfodol yn dilyn Brexit yn cynnig cyfleoedd ar gyfer symleiddio trefniadau yn y Saesneg yn y dyfodol yn ogystal â'r Gymraeg gan bwy bynnag sy'n eu gweithredu.
- d. **Dylai bod siaradwyr Cymraeg rhugl ynghlwm â'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â gweinyddu rhaglenni sy'n rhyngweithio gyda'r rheiny sydd y tu hwnt i'r mudiad:** mae manteision ynghlwm â hyn hefyd o ran ei fod yn cynnig cysondeb o ran arbenigedd ledled y gwasanaeth (h.y., peidio â 'benthyg' staff sydd fel arfer yn cyflawni swyddogaeth arall yn benodol i ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg) ac mae'n fodd o hybu hyder i gynnig ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol. Mae diffyg gallu yn debygol o arwain at ddefnydd diodyn o'r Saesneg. Mae hyn yr un mor berthnasol i gyrff buddiolwyr a rhanddeiliaid sy'n cynnig cymorth â'r rheiny sy'n gweinyddu rhaglenni: mae profiad CCG yn nodi bod meithrin perthynas drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn werthfawr wrth gydweithio gyda phobl sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf neu sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- e. **Annog a mabwysiadu enghreifftiau o arfer da,** er enghraifft, mabwysiadu cynlluniau megis 'Cynnig Cymraeg / Welsh Offer': siarter sy'n egluro pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael i ddefnyddwyr (mae nifer o fudiadau trydydd sector Cymraeg wedi mynd ati i wneud hynny, e.e., Mind).
- f. **Cefnogi staff** i fod yn fwy hyderus yn eu gallu yn y Gymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Mae gwerth mewn deall sgiliau Cymraeg y mudiad, ymgorffori hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ôl yr angen a chynnwys y Gymraeg mewn unrhyw bolisiau neu ddatganiadau hygyrchedd. Gallai hyn ymestyn i ddsbarthiadau i ddysgwyr a chynnig hyfforddiant i staff yn y Gymraeg a'r

Saesneg, ond gan hefyd gydnabod bod dod o hyd i hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith yn heriol ar gyfer hyfforddiant arbenigol neu unigryw megis diogelu data, rheoleiddio, defnyddio cyfryngau cymdeithasol a rheoli prosiectau. Mae defnyddio deunyddiau rhyngweithiol ar-lein yn gyfle i fynd i'r afael â hyn.

- g. **Monitro dewisiadau iaith defnyddwyr gwasanaeth** drwy gydol cyfnod y defnyddwyr ar y rhaglen er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i fuddiolwyr ac unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, mewn dull cymysg a chyfatebol sy'n addas i'w hanghenion.

5.2. Cymhorthion Technoleg Gwybodaeth: gallai'r rhain helpu a llywio darpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Bu i'r pandemig COVID 19 sbarduno arferion gwaith ar-lein newydd sydd wedi newid dulliau ar gyfer darparu gwasanaethau a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.3. Er bod byd ar ôl COVID 19 yn debygol o weld rhai agweddau gwasanaethau'n dychwelyd i ddulliau cyn y pandemig, mae'n debyg y bydd y technegau ar-lein newydd hyn yn dod yn rhan o'r patrwm yn y dyfodol o ran ffyrdd o weithio a rhyngweithio. Gallan nhw gynnig rhai manteision os cân nhw eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau priodol. Er enghraifft, gellir lleihau'r costau cyfieithu, ac mae posibilrwydd i ymestyn ein gwasanaethau i gynulleidfaedd Cymraeg eu hiaith. Dyma enghreifftiau penodol:

- a. Defnyddio rhaglenni ffôn megis 'Vocab' sy'n defnyddio geiriadur sydd wedi'i ddatblygu gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor i sicrhau bod testun Cymraeg ar wefannau'n fwy syml ac yn haws i'w ddarllen.
- b. Defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth i hwyluso cynnig Cymraeg gweithredol, er enghraifft, defnyddio cwcis i gofio dewis iaith neu adnabod cyfeiriad IP i bennu lleoliad daearyddol.
- c. Cydweithio gydag arbenigwyr i ddatblygu adnoddau hyfforddiant ar-lein cost effeithiol a lleihau'r ddibyniaeth ar ddeunydd cyfrwng Saesneg ar-lein.

Atodiad 1: Llyfryddiaeth fer:

1. <https://llyw.cymru/welsh-language-survey> (2015)
2. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language>
3. <https://welsh.gov/Welsh-language-data-from-the-Annual-Population-Survey-population>
4. <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/our-work/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/english-by-default-understanding-the-use-and-non-use-of-welsh-language-services/> (2015)